

BETH YW HEPATITIS A?



Haint firol yn yr afu yw Hepatitis A sy'n achosi'r clefyd melyn ac sy'n heintus iawn.

O ble ddaeth yr haint ?

O un o'r ffynonellau canlynol:

- O fwyta bwyd neu yfed dŵr sydd wedi'u heintio
- Cyswllt agos â rhywun arall sydd wedi'i heintio
- Rhannu bwyd â rhywun arall sydd wedi'i heintio
- Nofio mewn dŵr sydd wedi'i heintio

Pryd wnes i ddal yr haint ?

Byddwch fel arfer yn dechrau teimlo'n sâl o fewn 15-40 diwrnod wedi i chi gael eich heintio a bydd y cyfnod mwyaf heintus bythefnos cyn y byddwch yn dechrau teimlo'n sâl ac am hyd at 7 niwrnod ar ôl i'r clefyd melyn ymddangos.

Beth yw'r arwyddion a'r symptomau ?

- Lliw y dŵr yn debyg i liw te
- Twymyn
- Poen yn y bol
- Dim archwaeth
- Y croen a'r llygaid yn felyn
- Cosi

Sut mae ei atal rhag lledu ?

- Golchi'r dwylo yn drylwyr ar ôl mynd i'r toiled, ar ôl newid cewyn babanod a chyn paratoi bwyd neu fwyta bwyd.
- Dylid golchi dwylo plant ifanc sydd â'r haint neu eu goruchwylio yn golchi eu dwylo eu hunain.
- Golchi'r llestri yn dda ar ôl iddynt gael eu defnyddio.
- Diheintio pob man yn y toiled bob dydd (gan gynnwys dolenni'r drws).
- Dylai pobl sydd wedi'u heintio aros adre o'r gwaith hyd nes y bydd y cyfogi a'r dolur rhydd wedi cilio.
- Os yw'r sawl sydd wedi'i heintio yn trin bwyd, yn gweithio fel gofalydd iechyd/nyrs neu'n blentyn sy'n mynd i ysgol neu feithrinfa ayb holwch am gyngor pellach.
- Darllen y daflen sydd ynghlwm am gyngor mwy manwl.

Ble alla i gael mwy o gyngor ?

- Bydd eich Meddyg Teulu neu arbenigwr iechyd yn gallu rhoi cyngor i chi ar y gofal fydd ei angen ar gleifion unigol.
- Dylech ddweud wrth eich cyflogwr neu, gyda phlant, brifathro'r ysgol i weld a oes angen aros adre a phryd i ddychwelyd i'r gwaith neu'r ysgol.
- Bydd y swyddog ymchwilio hefyd yn rhoi i chi daflen fwy cyffredinol ar sut i reoli'r haint a gallwch gysylltu â'r swyddog drwy ffonio'r rhif isod os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch.

**Merthyr Tydfil County Borough
Council
Public Health Department
Civic Centre
Castle Street
Merthyr Tydfil
CF47 8AN**

Contact Numbers:

Susan Gow	725260
Sarah Larkin	725383
Sarah Hopkins	725029
Sian Rapson	725338
Zoe Pieris	725482